Cwestiynau Cyffredin gan filfeddygon Gwanwyn 2021

1. Sut ydw i'n bwrw ati gyda Helfa PI? Cwblhewch Ffurflen Gais Helfa PI a gofynnwch i'r ffermwr ei llofnodi hefyd, dechreuwch brofi - gwaed, meinwe neu laeth swmp neu gyfuniad. Anfonwch y Ffurflen at gwaredubvd@colegsirgar.ac.uk ynghyd â chopi o ganlyniadau'r labordy ac anfoneb (un anfoneb fesul fferm), yna fe allwn ni eich talu chi.
2. Sut ydw i'n cael fy nhalu am Helfa PI? Gweler uchod - anfonwch y tair dogfen at GBVD
3. Oes angen caniatâd GBVD arnaf i fwrw ati i gynnal Helfa PI? Nac oes, cyhyd â bod y sgriniad stoc ifanc GBVD mwyaf diweddar ar gyfer y fferm yn dangos o leiaf un canlyniad positif am Wrthgyrff.
4. Alla i gynnal Helfa PI ar gyfer fferm gyda dim ond 1 neu 2 allan o 5 yn bositif am wrthgyrff. Gallwch, os ydych chi o'r farn ei fod yn fuddiol, a bod y ffermwr am wneud hefyd - os ydych chi'n ansicr, ffoniwch i siarad â Neil neu John
5. Faint galla i ei hawlio ar gyfer Helfa PI? Hyd at £1000 fesul daliad - £900 ar gyfer profi a £100 i'r practis, £8 am bob prawf gwaed, £6 am bob prawf meinwe, £50 am bob prawf llaeth swmp - gweler ein templed anfonebu ar ein gwefan http://www.ahww.cymru/cy/resources/?vets
6. Alla i wneud ail Helfa PI ar fferm? Gallwch, mae hawl gan bob fferm i gael hyd at £900 o brofion BVD, ond dim ond unwaith y gall y practis hawlio £100 (a fydd eisoes wedi'i hawlio). Rhaid bod ganddyn nhw o leiaf un anifail positif ar eu sgriniad stoc ifanc Gwaredu BVD mwyaf diweddar.
7. Alla i hawlio am brofion ychwanegol a wnaed yn yr helfa PI cyntaf pan mai dim ond £500 oedd yr uchafswm? Gallwch, os bydd y practis yn anfon anfoneb atom a chopi o'r canlyniadau labordy ychwanegol am unrhyw brofion a gynhaliwyd uwchlaw'r rhai sydd eisoes wedi'u hawlio, hyd at uchafswm o £900 fesul fferm o brofion helfa PI BVD.
8. Alla i gynnal sgriniad stoc ifanc Gwaredu BVD arall ar fferm sydd eisoes wedi'i phrofi ychydig cyn 31 Mawrth 2021? Gallwch, gall pob fferm yng Nghymru gael sgriniaid stoc ifanc Gwaredu BVD am ddim rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Rhagfyr 2022, waeth pryd oedd eu prawf diwethaf, oni bai eu bod eisoes wedi cael 4 sgriniad stoc ifanc Gwaredu BVD.
9. Faint yn fwy y cawn ein talu am sgriniad stoc ifanc o 1 Medi 2020? Byddwch yn cael £50 ychwanegol am bob sgriniad, gyda £25 ychwanegol am bob grŵp rheoli dilynol a gaiff ei samplo ar yr un diwrnod. (uwchlaw beth rydych yn ei dderbyn eisoes)
10. Oes angen ffurflen gais Helfa PI newydd arnaf ar gyfer ail helfa PI ar yr un fferm? Nac oes, os oedd y cleient gyda'ch practis chi am yr Helfa PI cyntaf. Oes, os ydyn nhw wedi newid practis ers hynny.
11. Erbyn pryd mae angen i mi anfon y cais Helfa PI? Mae proses ariannu'r Helfeydd PI yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022, felly mae'n rhaid cyflwyno pob cais helfa PI, y canlyniadau a'r anfonebau erbyn y dyddiad hwnnw.

Mae'r holl ffurflenni perthnasol ynghyd â rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan http://www.ahww.cymru/cy/resources/?vets Os oes gennych ragor o gwestiynau, e-bostiwch **gwaredubvd@colegsirgar.ac.uk** neu ffoniwch **01554 748576**